Cymru Ifanc
Young Wales

Medi 2018

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Croeso i gylchlythyr Cymru Ifanc

Gwaith cyfranogi yw Cymru Ifanc wedi'i gynnal gan Blant yng Nghymru a'n sefydliadau partner, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cymru Ifanc yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am faterion sy'n bwysig iddynt hwy, a bod y materion hyn yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru'n arbennig.

Fesul mis byddwn yn dod â'r newyddion diweddaraf i chi, yn cynnwys diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau a grwpiau eraill ledled Cymru.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Mae cofrestru wedi agor ar gyfer Hawl i Holi ar Brexit Cymru Ifanc
2. Gwaith ar y Datganiad Ansawdd Blynyddol yn ennill gwobr genedlaethol
3. Amddiffynwyr Hawliau Dynol Plant yn ymateb i ymgynghoriad y Diwrnod Trafod Cyffredinol
4. Grwp Ymgynghorol Lleisiau o Ofal

Mae cofrestru wedi agor ar gyfer Hawl i Holi ar Brexit Cymru Ifanc

Gall pobl ifanc rhwng 10 ac 20 oed gofrestru i ofyn cwestiynau i banel o arbenigwyr ar

24ain Hydref 2018, yn y Senedd ym Mae Caerdydd.

James Williams, gohebydd Brexit BBC Cymru Wales, fydd yn cadeirio'r digwyddiad, a bydd panel o arbenigwyr amrywiol yn cael eu holi, gydag un panelwr arall i'w gadarnhau:

- **Huw Irranca Davies AC,** y Gweinidog Plant, Pobl Hyn a Gofal Cymdeithasol
- **Meri Huws,** Comisiynydd y Gymraeg
- **Ruth Coombs,** Pennaeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- **Mari Arthur,** Cyfarwyddwr Cynnal Cymru/ Sustain Wales

Rydyn ni am wybod beth sy'n bwysig i bobl ifanc o ran Cymru, yr Undeb Ewropeaidd a Brexit. Mae hwn yn gyfle i blant a phobl ifanc ofyn cwestiynau am Brexit, sut y gallai effeithio ar deithio ac astudio yn y Deyrnas Unedig, ar hawliau a chydraddoldeb yng Nghymru ar ôl Brexit, neu ar ffermio a chynhyrchu bwyd, neu ar gymunedau diogel a hapus.

Bydd angen cyflwyno cwestiynau ymlaen llaw; er mwyn i ni allu grwpio cwestiynau tebyg a sicrhau bod cynifer o gwestiynau gwahanol â phosibl yn cael eu hateb ar y noson.

I archebu lle, a chyflwyno eich cwestiynau, llanwch y ffurflen hon os gwelwch yn dda a'i hanfon at andrea@childreninwales.org.uk erbyn **dydd Mercher 10fed Hydref**.

Gwaith ar y Datganiad Ansawdd Blynyddol yn ennill gwobr genedlaethol

Mae Plant yng Nghymru, ar y cyd â Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi ennill y categori ar gyfer bod yn Hyrwyddwyr i'r Cyhoedd yng Ngwobrau Cenedlaethol Rhwydwaith Profiad y Claf eleni (PENNA).

PENNA yw'r raglen wobrwyo gyntaf, a'r unig un i gydnabod arfer gorau o ran profiad o ofal ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig.

Rhoddwyd y wobr i Plant yng Nghymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyn ein gwaith yn creu fersiwn pobl ifanc o Ddatganiad Ansawdd Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Fel rhan o Cymru Ifanc, ein menter gyfranogiad, bu Plant yng Nghymru yn gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi grwp o bobl ifanc 13-22 oed i fynychu digwyddiad preswyl dau ddiwrnod yng Nghaerdydd.

Roedd y digwyddiad preswyl yn gyfle i grwp Cymru gyfan o bobl ifanc dynnu sylw at faterion iechyd cyhoeddus allweddol, derbyn hyfforddiant cyfathrebu, ysgrifennu storïau ar gyfer y Datganiad Ansawdd Blynyddol i Bobl Ifanc, a gweithio gyda dylunwyr i ddylanwadu ar ffurf a golwg y ddogfen.

Yn ystod y ddau ddiwrnod, bu'r bobl ifanc yn rhannu barn ac yn cefnogi gwaith i ddatblygu gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, y strategaeth newydd 10 mlynedd, ac amcanion llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rydym wrth ein bodd bod y gwaith hwn wedi cael ei gydnabod â'r wobr, ac rydym ni'n edrych ymlaen at barhau i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed

ym meysydd iechyd cyhoeddus.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â chris.richards@childreninwales.org.uk.

Amddiffynwyr Hawliau Dynol Plant yn ymateb i ymgynghoriad y Diwrnod Trafod Cyffredinol

Cyn y Diwrnod Trafod Cyffredinol, mae Plant yng Nghymru wedi cyhoeddi ymateb i ymgynghoriad Child Rights Connect (CRC) ar Amddiffynwyr Hawliau Dynol Plant.

Yr ymgynghoriad, sef *'The Views, Perspectives and Recommendations of Children Across the World'* fydd y prif destun trafod ar y diwrnod. Mae'n crynhoi ymatebion plant a phobl ifanc, gan gynnwys plant a phobl ifanc o Gymru.

Bu Plant yng Nghymru'n gweithio gyda phobl ifanc i gael eu barn ar amddiffynwyr hawliau dynol plant. Gellir darllen eu sylwadau yn ein hadroddiad cysylltiedig, a gyhoeddir heddiw. Roedd ystod eang o bynciau trafod, gyda chyfraniadau gan amrywiaeth o grwpiau.

Darparodd pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sylwadau ar y bobl y maen nhw'n eu gweld fel amddiffynwyr hawliau dynol, a'r hawliau oedd yn bwysig iddyn nhw, a rhannwyd stori Joe am sefyll i fyny dros ei hawliau pan roddwyd llety anaddas iddo.

Cychwynnwyd y prosiect trawsnewidwyr gan grwp o bobl ifanc â salwch cyfyngus parhaol a'r gobaith yw cefnogi ac amddiffyn hawliau pobl ifanc sy'n pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Rhoesant eu barn ar yr hyn sy'n atal diogelu hawliau, beth allai ddigwydd os na fydd hawliau'n cael eu parchu a sut y gall plant helpu i amddiffyn hawliau.

Trwy ein prosiect Ymwneud Mwy â Gofal Cymdeithasol, bu Plant yng Nghymru yn ymgynghori hefyd â grwpiau o blant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu, gan weithio gyda SAFE (Sexual Awareness For Everyone), a chyda Vale Youth Speak Up. Rhoesant eu barn ar amddiffynwyr hawliau dynol plant, o'r hyn y gallant ei wneud i amddiffyn hawliau, i'w hymdrechion i hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn trwy ysgolion.

Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynnig argymhellion i helpu i hyrwyddo hawliau plant ymhellach. Ymhlith eraill, awgrymodd pobl ifanc y gellid gwneud y broses adrodd ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn fwy hygyrch i blant a rhoi rôl iddynt petai'r broses yn cael ei hadolygu. Awgrymodd yr adroddiad hefyd y gellid dileu'r rhwystrau sy'n wynebu amddiffynwyr hawliau dynol plant trwy wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch.

Gallwch lawrlwytho copi o'r adroddiad yma.

Ar y Diwrnod Trafod Cyffredinol, bydd Cymru Ifanc, sef hyb cyfranogi Plant yng Nghymru, yn bresennol yn ninas Genefa gyda dau berson ifanc, i gymryd rhan yn y drafodaeth. Gallwch ddilyn digwyddiadau'r diwrnod trwy ddilyn @youngwalesCIW ar Twitter.

Carai Plant yng Nghymru ddiolch i bob grwp a sefydliad sy'n bartner am gyfrannu, a charai ddiolch yn arbennig i'r holl bobl ifanc am roi eu barn a pharhau i amddiffyn hawliau dynol.

Grwp Ymgynghorol Lleisiau o Ofal

Mae Lleisiau o Ofal Cymru yn lansio grwp ymgynghorol sy'n cynnwys pobl ifanc â phrofiad o ofal o bob rhan o Gymru.

Bydd y grwp yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn, ledled Cymru. Bydd yn siarad am ddyfodol Lleisiau o Ofal Cymru a sut y gall wella bywydau pobl ifanc â phrofiad o ofal.

Bydd y bobl ifanc â phrofiad o ofal yn gallu cwrdd â phobl ifanc eraill â phrofiad o ofal i ddarganfod y pethau sy'n mynd yn eu blaen yn eu hardal nhw.

Mae Lleisiau o Ofal yn chwilio am bobl ifanc rhwng 12 ac 21 oed â phrofiad o ofal i gynnig cymryd rhan yn y grwp. Bydd angen i unrhyw un dan 18 oed sy'n gwneud cais gael caniatâd eu rhiant neu warcheidwad.

Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni cais ar wefan VFCC. Y dyddiad cau yw **22 Hydref 2018.**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan Lleisiau o Ofal Cymru.]

Cymru Ifanc
Young Wales

September 2018

Welcome to the Young Wales newsletter

Young Wales is the participation work that is being run by Children in Wales and our partner organisations, and is funded by the Welsh Government.

Young Wales will ensure that children and young people are heard on issues that are important to them, and in particular that these issues are heard by the Welsh Government.

Each month we will bring you the latest news, including updates on the work that is being done by forums and other groups across Wales.

If you have anything you'd like to contribute, please email info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Registration open for Young Wales Brexit Question Time
2. Work on Annual Quality Statement wins national award

3. Children Human Rights Defenders in Wales respond to United Nations Day of General Discussion consultation
4. Voices From Care Cymru Advisory Group

Registration open for Young Wales Brexit Question Time

Young people aged 10 to 20 are able to register to put their questions to a panel of experts on the 24th October 2018, at the Senedd in Cardiff Bay.

The event will be chaired by James Williams, BBC Cymru Wales' Brexit correspondent, and questions will be put to a panellists with a range of expertise, with one more panellist to be confirmed:

- **Huw Irranca Davies AM,** Minister for Children, Older People & Social People
- **Meri Huws,** Welsh Language Commissioner
- **Ruth Coombs,** Head of Wales, Equality & Human Rights Commission
- **Mari Arthur,** Director of Cynnal Cymru/ Sustain Wales

We want to know what is important to young people about Wales, the European Union and Brexit. It's an opportunity for children and young people to ask about Brexit, about how it might affect travelling and studying in the UK, or rights and equality in Wales after Brexit, or farming and food production, or safe and happy communities.

Questions need to be submitted in advance; this way we can group similar questions together and make sure that as many different questions are answered as possible on the night.

To book your place, and submit your questions, please complete this form, and send it to andrea@childreninwales.org.uk by **Wednesday 10th October**.

Work on Annual Quality Statement wins national award

Children in Wales with Public Health Wales have won the Championing the Public category at this year's Patient Experience Network National Awards (PENNA).

PENNA is the first and only awards programme to recognise best practice in the experience of care across health and social care in the UK.

The award was given to Children in Wales and Public Health Wales following our work creating the young person's version of Public Health Wales' Annual Quality Statement.

As part of Young Wales, our participation initiative, Children in Wales worked with Public Health Wales to support a group of young people aged 13-22 years old to

attend a two day residential event in Cardiff.

The residential presented an opportunity for an all Wales group of young people to highlight key public health issues, receive communication training, write stories for the Young Person's Annual Quality Statement and work with designers to shape the way the document looks.

Over the two days, the young people shared their views and supported work on developing the Public Health Wales website, the new 10 year strategy and the Public Health Wales well-being objectives.

We're delighted that this work has been recognised with the award, and we look forward to continuing to ensure that young people's voices are heard in the areas of public health.

For more information, please contact chris.richards@childreninwales.org.uk.

Children Human Rights Defenders in Wales respond to United Nations Day of General Discussion consultation

In advance of the United Nations Day of General Discussion, Children in Wales has published a response to the Child Rights Connect, (CRC) consultation on Children Human Rights Defenders.

The consultation, 'The Views, Perspectives and Recommendations of Children Across the World' will form the main discussion on the day. It summarises the responses of children and young people, including those from Wales.

Children in Wales worked with young people to collect their views as children human rights defenders. Their views can be read in full in our accompanying report, published today.
There was a wide range of topics, with input from a variety of groups.

Care experienced young people provided insights about who they see as human rights defenders, what rights were important to them, and shared Joe's story about standing up for his rights when he was given unsuitable accommodation.

The transformers project was started by a group of young people with lifelong limiting illnesses and hopes to support and defend the rights of young people going through transition from child to adult services. They gave their views on what stops rights being protected, what might happen if they aren't respected and how children can help to defend rights.

Through our Getting More Involved with Social Care Project, Children in Wales also consulted with groups of children and young people with learning disabilities, with Sexual Awareness For Everyone (SAFE), and with Vale Youth Speak Up. They provided their views on children's human rights defenders, from what they can do to defend rights to their efforts to promote the UNCRC through schools.

The report also makes recommendations to help further promote children's rights. Amongst others, young people suggested that the UNCRC reporting process be made more accessible to children and involve them if the process was reviewed. It also suggested that barriers to becoming children human rights defenders could be lifted by making information more accessible.

You can download a copy of the report here.

On the United Nations Day of General Discussion, Children in Wales' participation

hub, Young Wales, will be in Geneva with two young people, taking part in the discussion. You can follow along with the day's events by following @youngwalesCIW on Twitter.

Children in Wales would like to thank all of the groups and partner organisations who contributed, and to especially thank all the young people who gave their views and continue to be human rights defenders.

Voices From Care Cymru Advisory Group

Voices From Care Cymru are launching an advisory group made up of care experienced young people from all over Wales.

The group will meet four times a year, all over Wales. It will talk about the future of Voices From Care Cymru and how they can make the lives of care experienced young people better.

The care experienced young people will be able to meet other care experienced young people to find out about things going on in their area and meet other care experienced young people.

Voices From Care are looking for care experienced young people between 12 and 21 years old to put themselves forward for the group. Anyone under 18 who applies will need their parent or guardian's permission.

You can download the application forms on the VFCC website. The deadline is the **22 October 2018.**

You can find out more information on the Voices From Care Cymru website.

Young Wales - Cymru Ifanc | info@childreninwales.org.uk | 029 2034 2434 |

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive, click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.